Cofnodion **Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangrannog** a gynhaliwyd ar y 4ydd o Rhagfyr yn Neuadd Pontgarreg / Zoom.

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd Cynyr Ifan (Cadeirydd) Gareth Jones, Gari Jones, , Mair Evans, Anna Stuart, Morlais Davies a Gareth Lloyd.

**(7.30- 8.40yh)**

Wnaeth y Cadeirydd Cynyr Ifan dalu deyrnged i'r diweddar Cynghorydd Deio Evans yn dilyn ei farwolaeth. Bu Deio yn aelod gwerthfawr o'r Cyngor Cymuned a Phwyllgor y Neuadd am nifer o flynyddoedd. Mae ein meddyliau gyda'i wraig, plant a'i theulu ar yr adeg anodd hon.

Cynhaliwyd munud o dawelwch i gofio am y Cynghorydd Deio Evans.

**76 Ymddiheuriadau**
Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Heledd Clayton a Wendy Roberts gan nad oeddent yn medru fod yn bresennol.

**77 Datgelu Buddiannau Personol/Buddiannau sy'n Rhagfarnu**

Minutes of **Llangrannog Community Council** Meeting held on Monday 4th of December at 7.30pm at Pontgarreg Hall /Zoom.

**PRESENT:** Councillor Cynyr Ifan (Chair) Councillors Gareth Jones, Gari Jones, Mair Evans, Anna Stuart, Morlais Davies and Gareth Lloyd

**(7.30 – 8.40pm)**

Chairman Cynyr Ifan paid tribute to the late Councillor Deio Evans following his death. Deio has been a valued member of the Community Council and Hall Committee for a number of years. Our thoughts are with his wife, children and family at this difficult time

A minute's silence was held to remember Councillor Deio Evans.

76 **Apologies**
Councillors Heledd Clayton and Wendy Roberts had sent their apologies as they were unable to attend.

77 **Disclosure of Personal Interest/Prejudicial Interest**

**78 Cadarnhau Cofnodion cyfarfod a chynhaliwyd ar y 6th of Dachwedd**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a chynhaliwyd ar y 6ed o Dachwedd yn gofnod cywir.

78 **Minutes of the meeting held on the 6th of November**

The minutes of the meeting held on the 6th of November were confirmed as a true record.

**79 Materion yn codi**

13.07 Cais am ysgubwr ffordd Pwll y Whil

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cysylltu â'r clerc i ddweud y bydd y cais yn cael ei ailagor a'i ychwanegu at y rhestr o waith.

24.05 Cadwyn Cyngor Cymuned – Mae Cynyr Ifan wedi gwneud ymholiadau yn lleol ond dyw e ddim yn bosib prynnu'r dolenni yn lleol. CYTUNWYD y bydd Cyngh Ifan yn cysylltu gyda Kat Dawes er mwyn gofyn iddi a byddai modd iddi ein helpu neu oes ganddi wybodaeth ble gallwn cael dolenni.

61.01 Fe wnaeth Christine Davies gweddw y diweddar Gynghorydd Lynn Davies glirio ar feinciau – Cynghorydd Ifan wedi anfon llythyr o ddiolch ati.

79 **Matters arising**

13.07 The request for a road sweeper to go to Pwll y Whil.

Ceredigion County Council have contacted the clerk to say that the request will be re-opened and added to the list of works.

24.05 Community Council Chain – Cynyr Ifan has made enquiries and it's not possible to buy the extra links from the local shop. It was AGREED that Cllr Ifan will contact Kat Dawes to ask if she can help us or provide us with information on where we can buy the links.

61.01 Christine Davies widow of the late Councillor Lynn Davies cleared on benches – Cllr Ifan has written her a letter of thanks.

**80 Adroddiad Cynghorydd Sir**

Problemau maes parcio yn parhau - derbyn nifer o ymholiadau.

Cyfarfod cabinet yfory 05.12.23, papur wedi cael ei chyflwyno yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a'r treth y cyngor ar gyfer ail dau / tai gwag.

80 County Councillors Report

Car park problems continue - receiving a number of enquiries.

Tomorrow's cabinet meeting 05.12.23, paper is being put forward following public consultation on the increase of council tax for second homes / empty homes.

81 **Cyllid**
Balans wrth agor - **£16.941.76**
**CYTUNWYD I dalu'r canlynol;**
81.01 Elian Evans - £1210.00
81.02 Elian Evans - £100.00
81.03 Cyflog Clerc Rhagfyr - £249.86
81.04 HMRC Rhagfyr – £62.40

Cyflog Blaenorol £15.02 yr awr x 13 awr y mis = £195.26.
Cyflog newydd o'r 01.12.23 £16.02 yr awr x 13 awr y mis = £208.26
Cyfrifo am ôl-daliad fel y ganlyn:-
£1.00 x 13 awr y mis = £13 y mis x 8 mis (Ebrill – Tachwedd) = £104.00 ad-daliad.

**Balans wrth gau - £15,319.50**

81 Finance
Opening Balance - **£16,941.76**
**It was AGREED to pay the following;**
81.01 Elian Evans - £1210.00
81.02 Elian Evans - £100.00
81.03 Clerk Salary December - £249.86
69.02 HMRC December – £62.40

Previous pay £15.02 ph x 13hrs a month = £195.26.

New pay £16.02ph x 13hrs a month = £208.26

Calculation for back pay as follows:-
£1.00 x 13 hours a month = £13 a month x 8months (April – November) = £104.00

**Closing Balance - £15,319.50**

| | | |
|---|---|---|
| **82 Ceisiadau Cynllunio** | 82 | **Planning Applications** |
| **83 Ceisiadau am gymorth ariannol** | 83 | **Request for financial assistance** |
| 83.01 Urdd Ceredigion | | 83.01 Urdd Ceredigion |
| I'w drafod ym mis Chwefror | | To be discussed in February |
| **84 Gohebiaeth** | 84 | **Correspondence** |
| 84.01 Amcanbris torri porfa 2024 | | 84.01 Estimate for grass cutting 2024 |
| CYTUNWYD derbyn yr amcangyfrif ar gyfer torri cae Pontgarreg (ger y Neuadd) Cost £1760. CYTUNWYD hefyd i dderbyn yr amcangyfrif i dorri o amgylch meinciau cymunedol. Cost tua £160.00 (4toriadau, 4 meincnod yr un toriad) | | It was AGREED to accept the estimate for cutting Pontgarreg field (by the Hall) Cost £1760. It was also AGREED to accept the estimate to cut around the community benches. Cost roughly £160.00 (4cuts, 4 benches each cut) |
| 84.02 Adroddiad Praesept 2024-25 | | 84.02 Precept Report 2024-25 |
| Yn dilyn trafodaethau ar yr adroddiad a gyflwynwyd gan y Clerc cyn y cyfarfod CYTUNWYD i gadw'r praesept ar gyfer 2024-25 am £10,500.00 | | Following discussions on the report presented by the Clerk prior to tonight's meeting it was AGREED to keep the precept for 2024-25 at £10,500.00 |
| 84.03 Cyflog Clerc – cyhoeddiad NJC's | | 84.03 Clerk Salary – NJC announcement |
| Ar y 7fed o Dachwedd derbyniwyd cadarnhad am raddfeydd cyflogau ar gyfer 2023-24. Mi fydd unrhyw newid yn cael ei ôl dalu o'r 1af o Ebrill 2023. Clerc ar raddfa 21 sef yn 2022 - 23 roedd hwn yn £15.02 yr awr. O dan y raddfa newydd ar gyfer 2023-24 mae pwynt 21 nawr yn £16.02 yr awr. | | On the 7th of November confirmation of pay scales for 2023-24 was received. Any change will be paid back from the 1st of April 2023. Clerk on the scale of 21 which in 2022 - 23 this was £15.02 per hour. Under the new scale for 2023-24 point 21 is now £16.02 per hour. |
| CYTUNWYD i'r raddfa newydd. | | AGREED to the new scale. |
| 84.04 Cais am polyn newydd tu allan i'r Neuadd yn Pontgarreg | | 84.04 Request for a new flag pole at Pontgarreg Hall |
| CYTUNWYD i gysylltu â phwyllgor y Neuadd i ofyn iddynt a oes ganddynt bris am y gwaith arfaethedig sydd ei angen i drwsio'r polyn baner. | | It was AGREED to contact the Hall committee to ask them if they have a price for the proposed work need to fix the flag pole. |
| 84.05 Draen ochr heol wedi blocio | | 84.05 Blocked drains |
| Adroddwyd bod sawl lleoliad y mae angen eu riportio gan fod draeniau wedi'u blocio. Mi fydd y Clerc yn adrodd rhain trwy Clic. | | It was reported that there are several location that need to be reported as there are blocked drains. Clerk will report these via Clic. |

84.06 Cais Pwyllgor Lles am fwy o mannau parcio anabl yn y Maes Parcio

CYTUNWYD bod angen mannau parcio ychwanegol i bobl anabl. Nodi bod y mannau parcio anabl ychydig y tu allan i'r maes parcio. Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn am leoedd ychwanegol ac i gefnogi cais y Pwyllgor Lles.

84.06 Welfare Committee request for more disabled parking spaces in the car park

It was AGREED that there is a need for additional disabled parking spaces. To note that the disabled parking spaces are just outside of the car park. Clerk to contact the County Council to request additional spaces and to support the Welfare Committee's request.

84.07 Tudalen Facebook

I'w ystyried yn y Haf efallai.

84.07 Facebook page

To be considered in the Summer possibly.

84.08 CYNLLUN RHEOLI RISG CYMUNEDOL DRAFFT AWDURDOD TÂN AC ACHUB CANOLBARTH CYMRU

Nodwyd.

84.08 MID AND WEST WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY DRAFT COMMUNITY RISK MANAGEMENT PLAN

Noted.

**85 Materion i'w adrodd / digwyddiadau**

Tyllau yn y ffordd – Cnwc Gwyn

Ysgubwyr Ffyrdd – a oes rota / cynllun penodol ar gyfer pob ardal. Cododd cynghorwyr bryderon nad yw llawer o ffyrdd o fewn y Gymuned yn cael eu glanhau.

85 **Matters to report / events**

Potholes at Cnwc Gwyn

Road Sweepers – is there a set rota / plan for each area. Councillors raised concerns that a lot of roads within the Community aren't being cleaned.

**86 Materion i drafod ar agenda mis nesaf**

Cais Cynllunio A220769 Llys y Nant

86 **Matters to discuss on next month's agenda**

Planning Application A220769 Llys y Nant

**87 Trefniadau'r Cyfarfod Nesaf**
Mi fydd y cyfarfod nesaf ar nos Lun 8fed o Ionawr 2024 am 7.30yh yn Neuadd Pontgarreg / Zoom.

87 **Arrangement for next meeting**
The next meeting will be held on Monday the 8th of January 2024 at 7.30pm at Pontgarreg Hall / Zoom.